OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 161 (Cy. 29)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 12 (Tal-y-bont) i Gyffordd 13 (Abergwyngregyn), Gwynedd) (Cau Croesfannau'r Llain Ganol) 2020

*Gwnaed* *18 Chwefror 2020*

*Yn dod i rym* *16 Mawrth 2020*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A55, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a 2(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gogledd Cymru, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 12 (Tal-y-bont) i Gyffordd 13 (Abergwyngregyn), Gwynedd) (Cau Croesfannau'r Llain Ganol) 2020 a daw i rym ar 16 Mawrth 2020.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A55 Caer i Fangor;

mae i "llain ganol" yr ystyr a roddir i "central reservation" yn Atodlen 1 i Reoliadau Arwyddion Traffig a Chyfarwyddydau Cyffredinol 2016.

(1) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**Gwaharddiad**

**3.** Ni chaiff unrhyw berson beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur, sy'n mynd naill ai ar gerbytffordd tua'r gorllewin neu gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd, ymuno â'r gerbytffordd gyferbyn drwy groesfannau llain ganol y darn hwnnw o'r gefnffordd rhwng Cyffordd 12 (Tal-y-bont) a Chyffordd 13 (Abergwyngregyn) yn Sir Gwynedd.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 18 Chwefror 2020

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru